

## **Cyngor Cymuned Llanelian (287)**

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Mai 9, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Hefina Williams John Griffiths, Elfyn Hughes, Glenys Jones, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Cyng Richard Griffiths, Cyng Richard Jones, Cyng Aled Jones

**Ymddiheuriadau:** Thomas Jones, David Gerrard

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Croesawyd hefyd y Cynghorwyr sirol, Cyng Richard Griffiths am y tro cyntaf. Cytuno ysgrifennu at Wil Hughes i ddiolch iddo am ei gyfraniad dros y blynyddoedd diwethaf.

### **2 Datgan Diddordeb**

Neb yn datgan diddordeb. Dosbarthwyd gopi o nodyn briffio gan y Pwyllgor Safonau yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng diddordeb personol a diddordeb rhagfarnol.

### **3 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**

Cynnigwyd bod Dafydd Griffiths yn parhau yn Gadeirydd. Cytuno byddai ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yng nghyfarfod mis Mehefin.

### **4 Ethol Is-Bwyllgorau**

4.1 **Llithrfa** – Dafydd Griffiths, Thomas Jones a John Griffiths ynghyd ag aelodau'r gymuned.

4.2 **Caeau Chwarae** – Carol Whitaker, Gordon Hayes, Hefina Williams, Dafydd Griffiths a'r Cadeirydd.

4.3 **Mynwent** – Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Thomas Jones, Helen Hughes a John Griffiths.

4.4 **Cyllid a Pholisiau** – Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Dafydd Griffiths, Elfyn Hughes a Hefina Williams

### **5 Ethol Cynrychiolwyr i Bwyllgorau Allannol**

5.1 **Pwyllgor y Neuadd** – Helen Hughes

5.2 **Llywodraethwyr yr Ysgol** – Glenys Jones

5.3 **Grwpiau Wylfa (SSG/PLG)** – Cadeirydd

5.4 **Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon** – Cadeirydd a John Griffiths

5.5 **Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned Mon** – Cadeirydd

5.6 **Un Llais Cymru** – Cadeirydd a Hefina Williams

### **6 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Hefina Williams, eilio Glenys Jones.

### **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **7.1 Lon yr Ysgol**

Nid oedd diweddariad gan y Cyngor Sir. Nodwyd bod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penysarn wedi bod mewn cysylltiad a Cyng Aled Jones yn uniongyrchol ynglyn a'r

mater. Cydnabyddwyd bod trigolion lleol yn cwyno am geir yn troi ar eu tir a bod y broblem angen sylw pellach.

Nododd Cyng Aled Jones bod angen edrych ar yr ardal yn fwy eang, a bod problemau priffyrdd a gor-yrru ar Ion Twrcelyn hefyd. Cadarnhaodd ei fod mewn trafodaethau gyda'r swyddogion perthnasol.

## **7.2 Diogelu Enwau Cymraeg Hanesyddol**

Wedi cysylltu a Rhun ap Iorwerth, cafwyd ddolen i'r cyflwyniad yn y Cynulliad ar ddiogelu enwau hanesyddol. Cytuno edrych eto ar y llythyr oedd i'w hafnon at Carwyn Jones a'i addasu wedi'r drafodaeth ymysg aelodau.

## **7.3 Rhos Newydd**

Nid oes diweddariad gan y Cyngor Sir. Cytuno cadw'r eitem ar yr agenda nes bydd gwybodaeth pellach.

## **7.4 Golau'r Neuadd**

Nid yw'r gwaith wedi'i wneud hyd yma.

## **7.5 Hysbysfwrdd**

Nid yw'r bwrdd wedi ei osod hyd yma, ond mae disgwyl iddo fod yn ei le o fewn yr wythnos.

## **7.6 Swyddfa Bost**

Cadarnhawyd mai y llywodraeth sy'n penderfynnu pa ddiwrnod caiff unigolyn eu pensiwn a bod rhyddid iddynt ei gasglu o'r swyddfa bost unrhyw ddiwrnod wedi hynnu. Nodwyd bod y swyddfa bost yn y pentref am fod wedi cau eto wythnos nesaf. Cyng Aled Jones i ofyn a fyddai posib cael y bws i gynnig gwasanaeth.

## **7.7 Meinciau**

Bydd R Jones wedi cwblhau'r gwaith o fewn yr wythnos am gost o £200.

## **7.8 Parcio ar y glaswellt ar y gyffordd a'r A5025**

Darlennwyd ymateb Huw Percy (Swyddog Priffyrdd) i'r aelodau oedd yn bresennol. Roedd yr aelodau yn siomedig gyda'r ymateb gan nodi mai codi ymwybyddiaeth a chefnogi'r Cyngor Sir oedd y bwriad. Cyng Aled Jones i drefnu cyfarfod gyda Mr Percy i drafod ymhellach ac ymweld a'r safle.

## **7.9 Cronfa Ty Moel Isaf**

Daw llythyr gan Gwyn Roberts ynglyn a Giat y Fynwent. Cytuno edrych eto ar beth yn union sydd wedi ei gofrestru gyda CADW a faint fyddai giat draddodiadol o'r newydd yn ei gostio gan mai dyma oedd dymuniad Mrs Mair Morris.

## **7.10 Etholiad**

Cadarnhawyd bod llythyr wedi ei anfon at Dr Gwynn Jones ond nad oedd ymateb hyd yma. Cadarnhawyd hefyd bod un sedd wag ar y Cyngor ac felly bod angen dechrau'r broses o gyfethol. Bydd y clerc yn gosod yr hysbyseb swyddogol cyn gynted a bydd yr hysbysfwrdd newydd yn ei le.

## **7.11 Comisiwn Beddau Rhyfel**

Wedi siarad a'r swyddog rhanbarthol, mae' talid o £5 y flwyddyn yn cydnabod bod bedd ym mynwent Eilian, ac nid oes cyfrifoldeb na disgwyl ar y Cyngor i gynnal y bedd. Gan nad oedd yr unigolyn wedi ei gynnwys ar y gofgolofn, mae Gordon Hayes wedi bod yn ymchwilio i'w gefndir. Roedd J McGrath wedi ei leoli yn Llanelian ac yn gweithio yn yr orsaf radio. Bu farw drwy ddamwain ym Mhorth Amlwch.

Nodwyd bod mudiad or enw 'change step' yn cynnig gwasanaeth i gynnal beddi rhyfel drwy weithio gyda cyn-filwyr i wneud y gwaith.

### **7.12 Llwybr ger Dwyfor/Annedd**

Mae'r swyddogion wedi ymweld a'r safle ac wedi adrodd yn ol i gadarnhau bod y llwybr wedi ei glirio a ffens newydd wedi ei godi erbyn hyn.

### **7.13 Polisiau'r Cyngor**

Nodwyd bod ymateb wedi ei dderbyn gan y Swyddog Monitro a bod y clerc hefyd wedi cysylltu ag Un Llais Cymru am wybodaeth a chyngor pellach. Bydd cyfarfod o'r is-bwyllgor i drafod ymhellach.

## **8 Caeau Chwarae**

Nodwyd bod Playquest wedi bod i drwsio'r offer chwarae. Nid oedd adborth ganddynt am y llawr ac fe ofynnwyd i'r clerc gysylltu eto.

Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi cytuno gosod bin cyn gynted a phosib ar y ffordd tu allan i giat y cae chwarae. Gobeithir byddai'r bin yma yn lleihau y broblem baw cwn ar Lon Tyddyn Waen hefyd.

Gofynnwyd i aelodau'r Is-bwyllgor aros wedi'r cyfarfod i drafod meinciau newydd posib.

## **9 Cynllunio**

### **9.1 Ceisiadau – roedd dau gais i'w ystyried:**

- Point Lynas Caravan Park (24C18M/LUC) - gwrthwynebu'r datblygiad gan mai parc i ymwelwyr ydy hwn. Teimlai'r aelodau nad oedd rheswm newid i'w gael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl drwy'r flwyddyn. Roedd pryderon am ddatblygiadau pellach ar safle or fath a hynnu ar draws yr Ynys ac nid dim ond ar y safle yma.
- Gyferbyn a Corn Cam (24C118D) - Cefnogi'r cais ond codi ymwybyddiaeth am posibilrwydd o lygredd gan mai garej oedd y safle cynt, a hefyd posib o broblemau carffosiaeth fel pob datblygiad arall yn y pentref.

### **9.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:**

- Glascoed, Llanelian (24C341) – Caniatad
- 50 Tynrhos, Penysarn (24C342) – Caniatad

## **10 Llithrfa**

Cafwyd wybod bod 20 goriad wedi eu dosbarthu hyd yma (£1500), a bydd y postyn yn cael ei osod 15/5/2017. Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi archebu buoys newydd a byddent hwythau hefyd yn cael eu gosod wythnos nesaf. Bydd cyfarfod y Bartneriaeth Llithrfa yn cael ei drefnu cyn gynted a bod Jeff Price, Rheolwr Harbwr Amlwch ar gael ddiwedd y mis.

## **11 Materion Ariannol**

### **11.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£310.59 HMRC

£272.23 Cyflog Mis Ebrill

### **11.2 Archwiliad**

Daw llythyr gan Swyddfa Archwiliad Cymru yn cadarnhau'r hyn fyddent yn ei arolygu (yn ogystal a chyllid y Cyngor) dros y pedair blynedd nesaf.

Cytuno byddai adolygu'r gofrestr asedau mewn manylder cyn bod polisi yswiriant y Cyngor yn ddyledus. Cytuno gwirio gyda'r archwiliwr mewnol sut gofrestr sydd ei angen gan nad oes gwerth ar asedau'r Cyngor.

### **11.3 Ceisiadau am Arian**

Trafodwyd cais Eglwys Llanwenllwyfo eto. Cytuno cyfrannu £250 o gyllideb y Cyngor tuag at yr achos.

## **12 Gohebiaeth**

12.1 **Horizon** – bydd sesiwn gwybodaeth yn cael ei gynnal 15/5/2017 yn Swyddfeydd Cyngor Tref Amlwch.

12.2 **Hyfforddiant** - mae un Llais Cymru yn cynnal sesiynnau hyfforddiant i Gynghorwyr newydd yn Llangefni ddechrau Mehefin os oedd unrhyw un a diddordeb.

## **13 Pwyllgor Safonau**

Nodwyd bod adroddiad y pwyllgor wedi iddynt arolygu sampl o gynghorau Mon wedi ei gwblhau erbyn hyn.

## **14 Unrhyw Fater Arall**

14.1 **Kingston / Dublin** – wedi trafod diogelwch y safle er bod ffens ac arwyddion wedi eu gosod, cytuno cysylltu a'r swyddogion perthnasol yn y Cyngor Sir gan fod aelodau yn bryderus o'r safle.

14.2 Wal gerrig ger y llwybr beicio tuag at Castell – pryder am gyflwr y wal a'r posibilrwydd ohoni'n disgyn i'r llwybr. Cyng Aled Jones am gysylltu a'r Adran Briffyrdd i ymweld a'r safle.

14.3 Ymyl y lon ger Coch Moel – rhai wythnosau yn ol bellach roedd lori yn sownd yn y glaswellt ac wedi gadael twll tyfn ger ymyl y ffordd. Er bod 'cones' yn dangos y peryg, mae'r 'cones' yn cael eu symud gan geir yn reolaidd ac mae pryder bod damwain am ddigwydd ar y safle. Cytuno cysylltu a'r adran briffyrdd i godi ymwybyddiaeth a gofyn iddyn gymryd y camau priodol.

14.4 Cronfa Ty Moel Isaf – cais i gynnwys trafodaeth llawn ar sut bydd yr arian yn cael ei reoli ar agenda'r cyfarfod nesaf. Nodwyd rhai syniadau posib ar gyfer gwario'r arian er budd y gymuned ehangach.

## **15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Mehefin 6, 2017 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.45

**Arwyddwyd  
Dafydd Griffiths  
Cadeirydd**